

Susan Davies

From: North Planning <NorthPlanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>
Sent: 09 October 2015 11:00
To: planning_admin
Subject: P/2015/0738 - Gardden Pet Supplies, Gardden Cottage - NRW Response
NRW:00960102

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y cais uchod.

Rydym wedi bwrw golwg dros y cais ac nid ydym yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, sylwer nad ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar yr holl rywogaethau a'r holl gynefinoedd (gan gynnwys adar sy'n nythu) a restrir yn Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006, nac ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol na buddiannau treftadaeth naturiol lleol eraill.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd eich Awdurdod dan Adran 40 Deddf NERC, o ran rhoi ystyriaeth i warchod bioamrywiaeth, dylai eich penderfyniad ystyried effeithiau niweidiol posibl ar fuddiannau o'r fath. Argymhellwn eich bod yn ceisio cyngor pellach gan ymgynghorydd ecolegol mewnol eich Awdurdod a/neu sefydliadau cadwraeth natur fel yr Ymddiriedolaeth Natur leol, yr RSPB ac ati. Ceir canllawiau ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer asesu cynigion sydd â goblygiadau o safbwynt cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 (www.bioamrywiaethcymru.org.uk).

Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael yr holl drwyddedau eraill a phob caniatâd arall sy'n berthnasol i'w ddatblygiad.

Ymhellach, gall yr ymgeisydd gael gafael ar ganllawiau cyffredinol yn ymwneud ag atal llygredd, rheoli gwastraff, bioamrywiaeth a rhywogaethau a warchodir ar ein gwefan www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Gobeithio bod y sylwadau uchod o gymorth ichi. Ond os oes gennych ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Cofion cynnes

Thank you for consulting Natural Resources Wales on the above application.

We have reviewed the application and offer no objection to proposed development. However, please note that we have not considered possible effects on all species and habitats (including nesting birds) listed in Section 42 of the Natural Environment and Rural Communities (NERC) Act 2006, or on the Local Biodiversity Action Plan or other local natural heritage interests.

To comply with your Authority's duty under Section 40 of the NERC Act, to have regard to conserving biodiversity, your decision should take account of possible adverse effects on such interests. We recommend that you seek further advice from your Authority's internal ecological adviser and/or nature conservation organisations such as the local Wildlife Trust, RSPB, etc. The Wales Biodiversity Partnership's web site has guidance for assessing proposals that have implications for Section 42 habitats and species (www.biodiversitywales.org.uk).

The applicant should also be advised that, in addition to planning permission, it is their responsibility to ensure that they acquire all other permits/consents relevant to their development.

The applicant can also access general guidance in respect of pollution prevention, waste management, biodiversity and protected species from our website at www.naturalresourceswales.gov.uk.

I hope the above comments are of assistance however, if you have any queries please do not hesitate to contact me.

Kind Regards

Gareth Thomas

Gareth.Thomas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

0300 065 3786